

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 219

Pris £1

Mis Chwefror 2020



Cymru a'r Môr

tudalen 3

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyrion Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, **Hysbysebu:** Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Oedfaon Capeli Mis Chwefror

Bedyddwyr Tonyfelin

Annibynwyr Bethel

Chwefror 2ail : 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins

10.30 John Gwynfor Jones

Chwefror 9fed : 10.30 : Parch Lona Roberts 6.00 : I'w drefnu

10.30 Parch Huw Lewis

Chwefror 16eg : Yn Bethel

10.30 Parch R. Alun Evans (Cymun)

Chwefror 23ain : 10.30 a 6.00 : Parch Aled Edwards

10.30 Gyda Tonyfelin

Bethel



Beth am hurio ystafell eang ar gyfer dosbarthiadau neu gyfarfodydd ac ati.

Dewch i gapel Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili, CF83 3FB

Dim ond £8 yr awr gan gynnwys y gwres.

Cysylltwch ag Allan Cook ar cookatradyr222@gmail.com

TRWYDDEDI CYMRAEG

Sarhad ar ein cenedl yw bod yn rhaid i ni bellach gario trwydded yrru â bathodyn Jac yr Undeb arni. Gwrthododd llywodraeth David Cameron y Prif Weinidog ar y pryd bob cais i ddarparu fersiwn yn arddangos y Ddraig Goch ar ein cyfer ni'r Cymry. Mae pob gyrrwr newydd neu'r sawl sydd yn cyrraedd y saith deg oed ac yn gorfod gwneud cais am drwydded newydd yn gorfod plygu i'r drefn awtocratig hon.



Ond cynhyrchodd gwasg Y Lolfa, am bris rhesymol, sticeri y gellir eu defnyddio i orchuddio'r sen hon ar ein gwlad. Mae gan olygydd "Cwmni" rai yn ei feddiant. Os am unioni'r cam, cysylltwch â ni neu â Gwasg y Lolfa.

Cymru a'r Môr

Mae'r astudiaeth fwyaf cynhwysfawr erioed o hanes y môr yng Nghymru - a gymerodd dros ddegawd i'w hymchwilio a'i chynhyrchu - wedi ei chyhoeddi. Mae'r gyfrol *Cymru a'r Môr: 10,000 o Flynyddoedd o Hanes y Môr* yn tyrchu i bob agwedd o gysylltiad Cymru â'r môr, o hanes cynnar i'r presennol: o archeoleg i baentiadau a barddoniaeth, o hanes morwrol i wyliau glan y môr. Fe'i cyhoeddir gan Wasg y Lolfa, Talybont a'r pris yw £24.99.

Fe gafodd y gyfrol ei chomisiynu gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cydweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CADW, Amgueddfa Cymru, a'i hysgrifennu gan rai o haneswyr ac archeolegwyr mwyaf blaenllaw Cymru. Mae *Cymru a'r Môr* yn cynnwys hen ffotograffau archifol a ddaw yn bennaf o gasgliadau enfawr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, ond hefyd o lyfrgelloedd o bedwar ban byd.

Mae'n olrhain hanes brenhinoedd cynnar y Cymry, fel Gruffydd ap Llywelyn (1039-63) a Gruffydd ap Cynan (1099-1137) oedd yn berchen ar longau ac yn hurio llongau i wrthsefyll uchelgais yr Eingl-Normaniaid. Erbyn 1233, yr oedd gan Gaerdydd, Casnewydd a Chaerfyrddin longau y gellid eu defnyddio at ddibenion milwrol.

Mae cofnodion ar gael hefyd yn dangos fod masnachwyr o Loegr yn hwylio i aber Afon Wysg – i Gasnewydd a Chaerllion, mae'n debyg – i fasnachu. Ym 1258 daeth llongau â'u llond o win i Gastell Trefynwy i ddadlwytho wrth gei Abaty Tyndyrn, ac â'i cychod â'r gwin i fyny'r afon.

Mae darganfyddiadau archeolegol o Gymru - gan gynnwys cychod o'r Oes Efydd, llongau Rhufeinig a'u llwythi, y llong ganoloesol o Gasnewydd a'r iot frenhinol o'r ail ganrif ar bymtheg *Mary* - yn tystio i hanes cyfoethog Cymru fel gwlad fordeithiol. Mae *Cymru a'r Môr* yn dod â'r cyfan yn fyw: llongau mawr y cefnfor, y llongau a fu'n gosod ceblau oedd yn cysylltu Cymru â gweddill y byd, y llongau pleser, yr iotiau rasio a'r pierau glan môr, yn ogystal â'r dociau prysur oedd yn cyflenwi llechi, glo, haearn a dur o Gymru i weddill y byd.

Rhai o arwyr a dihirod y llyfr yw'r bycanîr Henry Morgan, y smyglwr William Owen a'r môr-leidr ysgeler Bartholomew Roberts, neu Barti Ddu, y dwedir iddo gipio 400 o longau mewn cyfnod o ddwy flynedd cyn cael ei saethu gan y Llynges Frenhinol yn 1722. Ceir hefyd ffigyrau fel yr arwres enwog Jemima Niclas a fentrodd allan yn ei chlogyn coch, gyda phicwarch yn ei llaw, i helpu trechu goresgyniad y Ffrancwyr ger Abergwaun ar 24ain o Chwefror 1797.

Wedi ei ddarlunio'n fendigedig ac yn llawn o dros 300 o ddelweddau, mae'r gyfrol swmpus 348 tudalen yn edrych ar ddylanwad y môr ar y dychymyg artistig trwy baentiadau morwrol, morluniau, barddoniaeth, caneuon a chofroddion poblogaidd o lan-y-môr. Y nod yw codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o ran proffil treftadaeth forol Cymru a dathlu gwaith caled y sawl sydd yn diogelu y dreftadaeth hon ar gyfer y genedl, trwy recordio, amddiffyn safleoedd a gwaith curadu mewn amgueddfeydd.

Yn ei ragair, llongyfarchir cyfranwyr *Cymru a'r Môr* gan Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Cynulliad Cymru, Dafydd Elis-Thomas, "am i chi'n hatgoffa ni fod i Gymru hanes morwrol balch". Mae hefyd yn ein hatgoffa bod moroedd Cymru yn gorchuddio arwynebedd mwy nag arwynebedd ein tir (arwynebedd morol 32,000km² / arwynebedd tir 20,375 km²).

"Mae *Cymru a'r Môr* yn hanes hynod o gynhwysfawr ac ar gael i bawb. Mae'n cynnwys pob agwedd o gysylltiad Cymru â'r môr, o'r adeg pan grewyd tirfas i heddiw," meddai Nicola Roberts, Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Mae *Cymru a'r Môr* wedi'i wreiddio mewn ysgolheictod ond fe'i ysgrifennwyd i'w fwynhau, ac mae'n llawn storïau a lluniau sy'n ein hatgoffa o'r rhan allweddol y mae'r môr wedi'i chwarae yn hanes unigryw Cymru.



Golwg tua'r starn wrth i Long Casnewydd gael ei chloddio. Llun: Amgueddfa a Gwasanaeth Treftadaeth Casnewydd

CLAWR.Y Mascotte, a adeiladwyd gan Thomas Cox a'i Fab yng Nghasnewydd ym 1904, yw'r cwch peilot mwyaf sydd wedi goroesi. Mae *Cymru a'r Môr* (£24.99, Y Lolfa) ar gael nawr

Helo! Mari ydw i.....

150 mlynedd yn ôl, aeth 153 o ddynion, menywod a phlant o Gymru ati i sefydlu gwladfa newydd yn Ne America i warchod eu hiaith, eu diwylliant a'u traddodiadau, a oedd dan fygythiad oherwydd diwydiannu cynyddol Cymru. Fe wnaethant ffrindiau gyda'r bobl frodorol a throi'r tir diffaith yn ardal amaethyddol ffrwythlon. Fe wnaethant hefyd sefydlu ysgol Gymraeg gyntaf y byd yn Nyffryn Camwy, Chubut.

Nid oedd pethau bob amser yn hawdd i'r Gymraeg, yn enwedig ar ôl i'r Sbaeneg ddod yn unig iaith "swyddogol" yn y wlad. Roedd teuluoedd yn cadw i fyny'r hen draddodiadau Cymreig yn eu cartrefi ac yn eu capeli.

Heddiw, mae diddordeb newydd gan bobl Patagonia yn eu gwreiddiau Cymreig ac mewn sicrhau dyfodol y Gymraeg yn eu gwlad. Bob blwyddyn, mae 24 o bobl ifanc yn cael eu dewis o bob rhan o Gymru i weithio gyda'r ysgolion a'r teuluoedd Cymreig lleol er mwyn eu hannog yn eu hymdrechion dros yr iaith a'u treftadaeth. Mae plant yr ysgol yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr ymweliadau hyn, pan fydd pobl ifanc Cymru yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau, gweithgareddau allgyrsiol, eisteddfodau, nosweithiau llawen ac unrhyw beth arall y gofynnir iddynt ei wneud!

Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael fy newis i fynd i Batagonia gyda'r Urdd ym mis Hydref 2020. Rwy'n gweithio ar ystod o brosiectau i godi'r arian a fydd yn caniatáu imi fynd, o werthu cacennau, i barti thema'r Ariannin, i weithgareddau noddedig. Mae fy ysgol, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, hefyd yn fy helpu i drefnu digwyddiadau codi arian.

Os hoffech chi roi rhodd i'r achos hwn, a helpu'r gymuned Gymreig ym Mhatagonia i wireddu eu breuddwyd o sefydlu'r Gymraeg unwaith eto yn eu tir, mae gen i dudalen *Gofundme*, sef <https://www.gofundme.com/f/1sui52tk5c>. Gwerthfawrogi pob ceiniog. Byddaf hefyd yn postio lluniau o'm mentrau codi arian ac o'r daith i Dde America ym mis Hydref ar fy nhudalen Instagram: @maripatagonia [<https://www.instagram.com/maripatagonia/>](https://www.instagram.com/maripatagonia/)

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i ddarllen hwn ac i bawb sydd wedi neu a fydd yn cyfrannu.

Mari.



Gweinidog Bedyddwyr Aberpennar a Marks and Spencers

Diolch i Mrs Ann Walker o Deri am y pwt hynod ddiddorol hwn o hanes. Dywed iddi ddod ar draws y stori wrth chwilota drwy bapurau ei mam gan feddwl efallai y byddai o ddiddordeb i'n ddarllenwyr.

Gweld llyfr o'r enw "Don't Ask the Price" gan Marcus Sieff wnes i pan neidiodd y geiriau "Gweinidog Bedyddwyr o Aberpennar" tuag ataf o'r dudalen! Wyr oedd Marcus Sieff i Michael Marks, sylfaenydd cadwyn siopa Marks and Spencers, felly beth oedd y cysylltiad â'r Bedyddwyr yn Aberpennar?

Wel, ar ôl chwilota a holi darganfyddwyd yr hanes.

Yn ystod Dirwasgiad y Tridegau yr oedd y teulu Marks yn awyddus iawn i helpu rhai o'r lliaws o bobol ddi-waith oedd yn y wlad ar y pryd. Yr oedd Gweinidog Bedyddwyr Aberpennar yntau'r un mor awyddus i gynorthwyo pobl ei bentref ei hun a llwyddodd i gasglu ychydig o arian ymysg aelodau ei gapel i helpu'r di-waith.

Penderfynodd anfon gair at berchennog M&S i ddweud am y casgliad o arian oedd ganddo ond bod gwir angen crysau ar ddynion y pentref oherwydd y diweithdra yn y pyllau glo. Cynigiodd y gweinidog swm o arian i dalu am y crysau ar ôl gweithio allan faint y gallai fforddio i dalu amdanynt. Tybed fyddai Mr Marks yn gwerthu'r crysau am bris gostyngedig?

Yn unol â'r cais penderfynodd M&S anfon 6,000 o grysau fel anrheg i ddynion Aberpennar. Ond yn y cyfamser roedd y siec wedi ei hanfon gyda'r geiriau "Diolch i Dduw am ddynion fel chi sy'n deall beth mae hunan-barch yn ei olygu i löwr di-waith". Anfonodd y siopwr yntau air i ddiolch i'r gweinidog a dychwelyd y siec.

Y WATFORD FAWR.

Mae teulu hoff y Watford
Yn deilwng o fy nghân,
Y ddau benteulu hawddgar,
A'r pedwar plentyn glân;
A Sarah'r forwyn siriol,
Enethig brydferth hardd,
Sy'n gweini mor ddymunol
Ar Dafydd Jones a'r Bardd.

Mae'r ddau hen ddyn estronol
Yn cael cysuron tre',
Trwy garedigrwydd tyner
Y teulu sy'n y lle;
Doed bendith nefoedd arnynt,
Am wneud rhan chwaer a brawd,
Yn well na rhai o'r enw,
I ddau bererin tlawd.

Ann, gynt o Ynysallan,
Cyfeilles hoff i mi,
A William Talyfedw,
Ei phriod addfwyn hi,
Sydd heddyw'n benau teulu
Hen fangre'r Watford Fawr,
Boed iddynt brif drysorau
Y nef a'r ddaear lawr.

Mae hen amaethdy'r Watford
Yn swynol iawn i mi,
Wrth gofio am enwogion
O'i fewn ef gynt a fu;
Y cerub a Drefecca,
A Whitfield fawr ei ddawn,
A seraph Pantycelyn,
Hen enwau anwyl iawn.

Hon ydyw'r fangre hynod
Y bu Grace Price yn byw,
Y canodd Williams iddi
Gân wir farddonol ryw;
Cân na cheir ei rhagorach
Mewn unrhyw iaith is rhôd,
A chan a bery'n anwyl
Tra bo'r Gymraeg mewn bod.

O flaen y ty hyd heddyw,
Mae'n aros yr hen ardd,
Lle'r oedd Grace Price yn rhodio
Gyda'r anfarwol Fardd,-
Yn dangos y *Carnasiwn*
A'r *Tulip* hardd ei liw,
A'u gweled oll yn debyg
I rasau Nefoedd Duw.

Mae Engyl yma'n ddiau
Yn hofran uwch y fan,
Gan hoffi gwel'd drachefn
Le gwnaethant gynt eu rhan;
Dônt ar eu melus deithiau,
I syllu ar y lle,
Adegau byddo'r *Holidays*
Ar ysgolheigion Ne'.

'Rwyf finau'n cael llettya
Yn yr hen fangre'n awr,
Yn trigo, bwyta, yfed,
Lle bu'r fath ddynion mawr;
Yn eistedd yn y cornel
Lle bu Bardd hoff y Ne',
Ac hwyrach hefyd gorwedd,
Y fan gorweddodd e'.

Mae Castell hen Caerffili,
Mewn golwg in' islaw,
A llawer ddont i'w weled
Oddiyma ac oddidraw;
Ac y mae'n dalp adgofiol
O lawer ymgyrch fu,
Ac ymladd caled, caled,
A thywallt gwaed yn lli'.

Mil gwell gan Engyl Gwynfa
Adgofion Watford Fawr,
Lle bu hoff weision Iesu
Yn rhoi eu penau' lawr,
'Rol lludded a blinderau,
Wrth ddatgan Grâs y Ne',
A Grace yn gweini arnynt,
'Roedd Nefoedd yn y lle.

Mai 26ain, 1876

WILLIAM.

Bu llawer o gwyno dros y blynyddoedd diwethaf am ddiffyg sylw i hanes Cymru yn ein hysgolion. Braff felly oedd darllen adroddiad Pwyllgor Diwylliant ac Iaith y Senedd yn ddiweddar, yn argymhell bod pob disgybl yng Nghymru yn cael gwybod hanes eu gwlad.

Beth bynnag a ddaw o'r adroddiad hwn, fe fydd yn cymryd amser i unioni'r cam a wnaethpwyd i hanes Cymru wrth lunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyntaf ym 1987-8. Yn wreiddiol, roedd ysgolion Cymru i ddilyn maes llafur ysgolion Lloegr ym mhob pwnc, a rhaid oedd wrth ymgyrchu dygn i sicrhau bod meysydd llafur gwahanol gennym yng Nghymru. Ond mae gan strwythur y cwricwlwm a weithredwyd – gyda rhai newidiadau – o 1989 tan heddiw wendidau sy'n adlewyrchu dylanwad hanes Lloegr. Un gwendid yw diffyg cyfle yn y cwricwlwm i astudio'r cyfnod cyn 1000 pan ffurfiwyd Cymru a'i hiaith. Un arall yw diffyg cyfle i astudio'r ddeunawfed ganrif, cyfnod allweddol yn natblygiad ein cenedl, a chyfnod y dylem, fel Cymry, ymfalchïo ynddo.

Yn y ddeunawfed ganrif roedd tua hanner poblogaeth Cymru yn llythrennog yn eu mamiaith. Nid yw hynny'n edrych yn fawr o beth i ni heddiw, efallai, ond dri chan mlynedd yn ôl roedd yn ddigon o ryfeddod trwy Ewrop gyfan. Yr



ysgolion cylchynol a sefydlwyd gan y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, oedd yn gyfrifol am addysgu'r werin bobl. Comisiynodd Catrin, Ymerodres Rwsia, adroddiad ar yr ysgolion hyn ym 1764, ac roedd UNESCO yn ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da er hybu llythrennedd mor ddiweddar â 1955. Pam nag ydym yn dathlu'r gamp addysgol hon a ninnau ar drothwy cwricwlwm newydd i Gymru?

Ar ben hynny - ac efallai fel canlyniad iddo - ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif magodd Cymru nifer o feddylwyr arloesol, mathemategwyr, athronwyr a gwyddonwyr o fri. Ffrwyth y capeli Anghydfurfiol oeddynt, oherwydd yr adeg honno roedd drysau prifysgolion Prydain ar gau i bawb ond Anglicaniaid.

I academiâu'r Anghydfurfwrwyr aeth enwogion fel Dr Richard Price, Llangeinor, a gynghorodd Benjamin Franklin, Thomas Jefferson a George Washington wrth iddynt lunio cyfansoddiad i'r Unol Daleithiau newydd.

Yno hefyd cafodd Morgan John Rhys o fferm y Graddfa, ger Llanbradach, ei addysg cyn dechrau ar ei yrfa ddisglair fel pregethwr radical a sefydlydd y cylchgrawn cyntaf yn y Gymraeg. Ac i academiâu tebyg yma yng Nghaerffili ac yna yng Nghaerfyrddin yr aeth David Williams o'r Waunwaelod, Caerffili, hefyd yn gyfaill i Benjamin Franklin. Bu yntau'n cynghori arweinwyr y chwyldro yn Ffrainc wrth iddyn nhw lunio cyfansoddiad i'r wladwriaeth newydd honno.

Mae'n bur debyg bod pawb ohonoch sy'n darllen y geiriau hyn yn gwybod am arloeswyr democratiaeth UDA: sawl un o ddisgyblion ein hysgolion sy'n gwybod am gyfraniadau Cymry i hanes y wlad honno?

Diddorol yw sylwi bod Dr Richard Price a David Williams wedi ysgrifennu ar addysg, ac yn coleddu egwyddorion addysgol hynod o debyg i'r rhai sy'n ysbrydoli'r cwricwlwm diweddaraf. Byddai'n braff i feddwl bod y rhai sy'n llunio'r cwricwlwm hwnnw yn gwybod amdanynt. Wedi'r cyfan, yng ngeiriau Dr Price, "Nid oes dim byd pwysicach na chael cynllun addysg sydd yn ddoeth ac yn



Cymwynaswyr Cymru o'n Cymoedd – 1

Ar adeg pan mae llawer o sôn am yr angen i roi mwy o sylw i Gymru yng nghwricwlwm ein hysgolion, ac oedolion yn mynegi eu hawydd i wybod mwy am eu gwlad, da yw cofnodi a dathlu gwaith un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Ystrad Mynach.

Am gyfnod byr yn unig y bu'r Dr John Davies yn byw yn ein bro. Roedd gwaith ei dad yn gorfodi'r teulu i symud cartref yn aml, ac ar ôl blwyddyn (1951-2) symudodd y teulu i fyw i Lanisien. Ond fe wnaeth ei gyfnod yn yr ysgol yma argraff ddofn arno. Yng ngeiriau John, "Own i'n dysgu Cymraeg fel pwnc yn Ysgol Ystrad Mynach ond doedd dim rhaid yng Nghaerdydd yn yr amser hwnnw".

Roedd yr hen 11+ mewn grym yn y dyddiau hynny hefyd, ac er i John gael siom pan fethodd yr arholiad hwnnw, cafodd athro Cymraeg da yn Ysgol Uwchradd Fodern Allensbank yng Nghaerdydd. Dechreuodd ymddiddori mewn daeareg yn yr un cyfnod, ac ymunodd â Chlwb Daearegwyr Ifanc yr Amgueddfa Genedlaethol, a sefydlwyd gan Emlyn Evans - o Fochriw. Ym 1959 aeth John, yn grwt 15 mlwydd oed, i gyfarfod sefydlu Cymdeithas Daearegwyr De Cymru, ac mae'n dal yn aelod o'r Gymdeithas chwe deg o flynyddoedd yn ddiweddarach, ac wedi bod yn Llywydd ac Is-Lywydd.

Aeth ymlaen i wneud gradd mewn daeareg, ac enillodd ei ddoethuriaeth am ei waith ar fap daearegol o Sir Frycheiniog. Tra roedd yn y brifysgol, enillodd wraig hefyd, ac fe wnaeth y ddau eu cartref yn Llanwrtyd, lle ganed eu plant, Siân Marged a Hywel Elfed. Roedd John a Sue yn bendant eu bod am fagu eu plant yn Gymry, ac wedi i'r rhieni fynd ar gyrsiau Wlpan, a'r plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg, daeth y Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Agoron nhw siop lyfrau Cymraeg yn Llanwrtyd, a dechreuodd John drefnu a chynnal cyrsiau Cymraeg yn yr ardal. Yn y cyfnod hwn hefyd gafodd John swydd gyda'r Cyngor Llyfrau a roddodd gyfle iddo deithio Cymru gyfan.




Dr John Davies Yn ei gartref yn Ystrad Mynach (byngalo Underwood) rhwng Ystrad Mynach a Llanbradach) yn 1952

Ym 1991 gafodd John swydd ym maes ei arbenigedd, fel Daearegwr Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Dyna oedd ei waith nes iddo ymddeol yn 2009. Ond nid oedd y swydd honno yn ddigon i John. Mae ganddo egni a gweledigaeth ryfeddol. Yn 2002 sefydlodd Fforwm Cerrig Cymru, cymdeithas amlddisgyblaethol sy'n cynnwys pen-seiri, archeolegwyr, daearegwyr, seiri maen a chwarelwyr sy'n cyfuno'u sgiliau a'u harbenigedd i greu corff o wybodaeth dechnegol a gwyddonol am ddefnydd cerrig yn adeiladau Cymru.

Mae John wedi cyfrannu'n helaeth i'n

hymwybyddiaeth o hanes ein gwlad hefyd. Ers 1997 mae wedi trefnu seremonïau Cofio Llywelyn ym mis Rhagfyr, sy'n dechrau gyda gwasanaeth yn eglwys fach Llanynys, lle addolodd Llywelyn Ein Llyw Olaf cyn iddo gael ei ladd.

Yna mae gorymdaith i Gefn y Bedd, Cilmeri, a chyfres o ddigwyddiadau eraill dros y penwythnos.



Yn siarad ym Meddgelert, 2006

Yn 2007 sefydlodd John Gymdeithas Meysydd Cad Cymru i astudio safleoedd brwydrau'r gorffennol gan ddefnyddio daeareg, daearyddiaeth a thystiolaeth hanesyddol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r brwydrau.

Ers i adeilad y Senedd gael ei agor yn 2007, mae hefyd wedi trefnu taith Neges Dewi Sant o Dŷ Ddewi i'r Senedd ym Mae Caerdydd, pan gaiff pobl ifanc Tŷ Ddewi gyflwyno eu negeseuon i'r Llywydd ynghyd â'r rhai a gasglwyd oddi wrth gymunedau eraill De Cymru ar eu taith i Gaerdydd.

Ac meddai John, "Oni bai am hynny, rwy wedi cael bywyd eitha tawel". Ond bywyd sydd wedi cyfrannu'n helaeth i'n dealltwriaeth ni o'n gwlad, ein daear a'i hanes. Diolch John!

Dyfodol Llwyddiannus

Lynn Griffiths,
Pennaeth Ysgol Gymraeg Caerffili



Ym mis Mawrth 2014, fe ofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson edrych ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu mewn ysgolion yng Nghymru. Cafodd yr Athro Donaldson a'i dîm gyfarfodydd ledled Cymru er mwyn i ysgolion gael dweud eu dweud. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phenaethiaid ysgolion, staff addysgol, disgyblion, rhieni a gofalwyr, busnesau a grwpiau cymunedol. Cyhoeddwyd Dyfodol Llwyddiannus yn 2015.

Cytunwyd dylai'r cwricwlwm fod â phedwar diben a fyddai'n sail i'r holl benderfyniadau yn y dyfodol am flaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol, ac yn sylfaen i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru. Nodwyd byddai'r pedwar diben yn datblygu -

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Dysgwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.

Dysgwyr iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Dysgwyr egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

Nodwyd o fewn yr adroddiad byddai chwe maes dysgu a phrofiad. Byddai pob un o'r chwech yn bwysig a bydden nhw'n cyfrannu mewn ffyrdd gwahanol at y pedwar diben. Y chwe maes oedd - Iechyd a Lles; Celfyddydau Mynegiannol; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Byddai'r cwricwlwm i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed yn cael ei drefnu yn ôl y meysydd yma gan sicrhau profiadau addysgol eang i bob plentyn a pherson ifanc.

Awgrymodd yr adroddiad y dylai pob athro fod yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Byddai'r rhain yn sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn cael eu hybu yn ddyddiol er mwyn datblygu disgyblion deallus a fyddai'n gallu ymdopi gyda'r her o fyw yn yr Ugeinfed Ganrif ar Hugain. Byddai angen i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ehangach a fyddai'n allweddol ar gyfer bywyd a gwaith modern.

Byddai'r rhain yn cynnwys - meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd, effeithiolrwydd personol.


Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ysgolion gynnig datblygu'r cwricwlwm newydd ac fe wnaeth ein hysgol ni gais ar y cyd gydag Ysgol y Castell a Chwm Gwyddon i ddatblygu'r maes dysgu Mathemateg a rhifedd. Cytunwyd byddai Mrs Karen Griffiths, un o uwch arweinwyr yr ysgol, yn arwain ar y gwaith yma ac felly rydym wedi bod yn treialu'r cwricwlwm newydd dros nifer o flynyddoedd. Yn sgil y gwaith yma rydym wedi gallu gwahodd arweinwyr o ysgolion arloesol eraill i wneud cyflwyniadau i'n staff ar y meysydd dysgu eraill fel iechyd a lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r Dyniaethau. Erbyn hyn rydym yn barod i gefnogi ysgolion eraill sydd ond yn cychwyn ar y daith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd a fydd yn ei le erbyn Medi, 2022.

Mae disgyblion ein hysgol erbyn hyn yn gyfarwydd iawn â'r cwricwlwm newydd ac wedi gwneud gwaith ymchwil gyda disgyblion o Ysgol Bro Allta, Penalltau a Threllyn o dan arweiniad Prifysgol Stirling yn yr Alban. Ffocws yr ymchwil oedd codi ymwybyddiaeth ein disgyblion o'r 4 diben ac ystyried y rhinweddau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, creadigol, egwyddorol, iach a hyderus. Roedd yn brofiad hynod bleserus i weld aelodau o gyngor ysgol y pedair ysgol yn gwneud cyflwyniadau i'w gilydd ym Mhenalltau ym mis Ebrill, 2019. Aeth disgyblion o'r pedair ysgol ati i weithio gyda Mr Sid Head, arlunydd swyddogol ein hysgol ni i greu cymeriadau a fyddai'n galluogi ein disgyblion i ddeall yn well y 4 diben sy'n ganolog i'r cwricwlwm newydd cyffrous yma yng Nghymru. Mae dyfodol disglair a llwyddiannus iawn o'n blaenau!

Posau'r Plant

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



P I A N A C E L Y
C E R D D A N T E
E M Y W C N O D U
D Y A O N A I P B
A N D R O C W U D
U F F A G I T H L W
L M N B U O P R A
W Y S N Y L E T U
B D A W N S I O E
E C F Y Q A L Y D

Mae 11 gair yn ymwneud â cherddoriaeth yma.
Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

PIANO CANU TELYN DEUAWD
CERDD DANT DAWNSIO EMYN
CÂN ACTOL UNAWD CÔR

Mae'r atebion ar waelod tudalen 20

Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

Fuoch chi'n dathlu Dydd Santes Dwynwen eleni ar Ionawr 25? Dwynwen ydy nawddsant cariadon Cymru, fel Sant Valentine yn Lloegr.

Roedd hi'n ferch i Brychan, Brenin Brycheiniog, dyn lwcus iawn achos roedd 24 o ferched gyda fe! Un arall o'i ferched oedd Tudful sy'n rhan o enw tref Merthyr Tudful. Digwyddodd rhywbeth trist i Dwynwen, pan syrthiodd hi mewn cariad â dyn oedd ddim yn ei charu hi. Roedd Dwynwen mor anhapus a gofynodd hi i Dduw ei helpu hi. Daeth angel ati hi mewn breuddwyd a chafodd hi dri dymuniad.

Ei dymuniad cyntaf oedd cael anghofio ei chariad, yr ail na fyddai hi byth yn priodi a'r trydydd ei bod hi'n cael helpu cariadon Cymru. Aeth Dwynwen i fyw ar Ynys Môn a sefydlu eglwys yn Llanddwyn. Mae ffynnon wrth yr eglwys ac mae cariadon yn mynd yno heddiw i wneud dymuniadau.

Am amser hir doedd neb yn cofio am Dwynwen ond heddiw mae llawer o bobl yn dathlu ei diwrnod hi gyda chardiau arbennig ac anrhegion rhamantus.

dathlu : to celebrate

nawddsant : patron saint

syrthiodd hi mewn cariad : she fell in love

mewn breuddwyd : in a dream

dymuniad : a wish

anghofio : to forget

priodi : to get married

sefydlu : to establish

ffynnon : a well

anrhegion rhamantus : romantic gifts

Ymweld â Thŷ Tredegar

“Mieri lle bu mawredd” oedd disgrifiad Ieuan Brydydd Hir o adfeilion llys Ifor Hael ym 1780, ond gwahanol iawn yw golwg plas disgynyddion y tywysog, teulu cyfoethog y Morganiaid. “Tŷ Tredegar” yw ei enw, ond palas yw mewn gwirionedd!



Cododd William Morgan yr adeilad hardd hwn o frics coch rhwng 1664 a 1672. Ie, roedd e wedi cefnogi'r brenin yn y Rhyfel Cartref, a chafodd ei wobwr – fel a wnaeth ei gyndad, John Morgan yn ei ddydd, pan ddewisodd gefnogi Harri Tudur. Cododd John Morgan blas o gerrig ym 1490 ac mae darn o'r hen dŷ hwnnw i'w weld o hyd – wedi ei lyncu gan odidowgrwydd y tŷ diweddarach. Os oedd y Morganiaid yn ddisgynyddion i dywysogion, roedden nhw hefyd yn gwybod sut i ddewis yr ochr fuddugol ac i arddangos eu llwyddiant mewn brics a mortar.

Bu'r teulu'n byw yn y plas am ganrifoedd, gan ymgyfoethogi eto ar ddatblygu'r glo a haearn oedd o dan eu herwau eang. Ond daeth tro ar fyd y teulu yn yr ugeinfed ganrif. Erbyn 1951 bu'n rhaid gwerthu'r plas a'i holl eiddo er mwyn talu'r dyledion.

Am flynyddoedd wedyn roedd yr adeilad urddasol yn ysgol Gatholig i ferched. Gosodwyd desgiau a byrddau duon yn yr ystafelloedd crand, meddiannwyd y coridorau a'r gerddi gan fwrllwm yr ifanc - a chuddiwyd rhai o'r murluniau er cywilydd. Prynodd Cyngor Dinas Casnewydd y plas ym 1974, a'i droi'n amgueddfa. Cafodd disgynyddion gweithwyr y ffwrneisi a'r pyllau glo fu'n eiddo i'r Morganiaid balch gyfle i fwynhau'r plas a'i erddi eang - lle gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1988 ac eto yn 2004.

Yn 2011 cytunodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofalu am Dŷ Tredegar – ac yn Rhagfyr 2019 tro Merched y Wawr Cwm Rhymini oedd hi i fwynhau harddwch a hanes yr hen blas. Cawsom goffi bach i ddechrau, cyn crwydro trwy'r gerddi a'r tai ma's, sy'n cynnwys ysgol farchogaeth ac orendy, ac yn y diwedd, mentron ni mewn trwy'r drws ffrynt.

Roedd tipyn bach o sioc yn ein disgwyl: ar hyn o bryd mae arddangosfa yno yn cyflwyno hanes y Siartwyr, a ymosododd ar Gasnewydd ym 1839 fel rhan o'r ymgyrch hir i ennill y bleidlais. Mae'r celfi a'r lluniau, y carped a'r addurniadau yn tystio i gyfoeth a chwaeth y Morganiaid, ond mae'r posteri, yr arddangosfeydd a'r gweithgareddau yn eich atgoffa yn syth o'r bwlch rhwng y Morganiaid a'u gweithwyr, ac o wrthwynebiad y teulu cyfoethog i hawliau cynhyrchwyr eu cyfoeth.

Wedi i ni ddringo'r grisiau, dychwelsom ni i ganol bywyd moethus y Morganiaid yn yr ugeinfed ganrif, a chawsom gyfle i edmygu'r celfi a dillad crand (a'r siampaen ar iâ yn y bath). Dyna lle aeth y cyfoeth!



Gwaith caled yw tramwyo'r canrifoedd, ac erbyn i ni gyrraedd diwedd ein taith roeddem yn barod iawn am ginio. Mae bwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn enwog, a chyda rheswm. Cawsom bryd ysgafn blasus yn y caffi – a gwasanaeth diflino Gareth, yr is-reolwr. Ni fyddai'r Morganiaid gynt wedi bodloni ar un gwas ar gyfer dwsin o westeion, ond roedden ni ar ben ein digon!



Bwletin Dreigiau

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni



Pwy yw'r Dreigiau?



Criw bach brwd ydym ar hyn o bryd o ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 sy'n ymfalchio yn yr iaith Gymraeg ac sydd am fwynhau defnyddio'r Gymraeg mewn modd naturiol ac mewn amgylchiadau anffurfiol yng nglwb y Dreigiau. Rydym bellach yn cwrdd ddwy waith yr wythnos adeg yr awr ginio ac wedi mwynhau pob math o weithgareddau anffurfiol megis chwarae gemau bwrdd, ymchwilio i apiau Cymraeg, creu cylchgrawn a gwrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg. Rydym bellach wedi bod wrthi yn creu fideos i hyrwyddo'r Gymraeg adeg Diwrnod Shw Mae ac adeg gêm bêl-droed fawreddog rhwng yr athrawon a'r Chweched dosbarth adeg

diwrnod Plant Mewn Angen.

Beth yw ein gweledigaeth?

Ein gweledigaeth yw hyrwyddo'r iaith a chyfrannu tuag at uchelgais llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i 1,000,000 erbyn 2050. Rydym am roi'r cyfleoedd hynny a fydd yn ysbrydoli disgyblion Cwm Rhymni i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau ac i ddangos mai nid iaith gwersi yn unig yw hi.

Sefydlu Is-Bwyllgor y Dreigiau

Braint ac anrhydedd oedd cael bod yn bresennol i wrando ar fwrlwm o syniadau'r Dreigiau yng nghynhadledd yr Is-Bwyllgorau a gynhaliwyd ym mis Hydref. Cawsom gyfle i rannu syniadau gyda disgyblion y ddau safle ac uchafbwynt y diwrnod oedd rhaeadrui ein hamcanion. Ein gobeithion eleni felly yw:-

1. Rhaeadrui gwybodaeth am raglenni, cerddoriaeth ac apiau Cymraeg.
2. Lledaenu'r Gymraeg i'r gymdeithas ehangach (yn benodol staff y ffreutur, gofalwyr a'r llywodraethwyr).
3. Dosbarthu gair yr wythnos.
4. Hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddathlu digwyddiadau pwysig.

Mae'r gwaith eisoes ar waith ac rydym bellach wedi dosbarthu taflenni cymorth i rieni adeg Noson Rieni Blwyddyn 7, wedi dathlu diwrnod Shw Mae ac wedi rhaeadrui gwybodaeth am fand y mis, sef Yr Eira.

Ein hymgyrch fawr y tymor nesaf fydd cryfhau'r berthynas gyda'r gweithle gan gynnig gwersi agoriadol Cymraeg a chreu posteri/cardiau i annog y Gymraeg i staff y ffreutur/gofalwyr a'r llywodraethwyr. Camau bach yw'r rhain ar hyn o bryd ond gobeithiwn y bydd y pethau bychain yn hadau a fydd yn dwyn ffrwyth, felly dewch i ddreigiau Cwm Rhymni, oes gennych chi'r gyts i ymuno gyda ni? Tua'r Goleuni!



Os oes unrhyw riant neu gynddisgybl sydd yn medru ein cynorthwyo i hybu'r iaith neu yn fodlon siarad am eu profiadau cadarnhaol wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned neu yn eu gwaith, cofiwch gysylltu â ni. Diolch.

Atgofion Melys – Rhan 2

Roedd yn agoriad llygaid pan ddaliais y bws mini am y tro cyntaf lawr i Rydfelen ym Mhontypridd. Roedd fy rhieni wedi cynilo i sicrhau fy mod yn cael pob darn o wisg ysgol i fy ysgol newydd, a hynny wedi dod o siop Evan Roberts yng Nghaerdydd. Sôn am deimlo'n smart! Emrallt oedd prif liw'r wisg gyda chot ysblennydd ddu a "lining satin emrallt", dwy het boter, un ffelt ar gyfer y Gaeaf ac un wellt ar gyfer yr Ha'.

Rhaid oedd cael y cit addysg gorfforol gyda sgertiau byr llwyd wedi plethu a sanau emrallt i gyd-fynd. Yr uchafbwynt oedd ca'l tiwnig oedd yn eich gorchuddio ar gyfer celf a chreffft!! Dyna'r union amser dechreuais i ddangos diddordeb ym myd ffasiwn. Feiddiai neb anghofio un darn o'r wisg neu byswyn yn atebol i'r dirprwy. Cofiaf fel ddod i fi bledio gyda'r gyrrwr bws i ddychweled i fy nhŷ ar ôl imi anghofio fy het!

Roedd ethos Rhydfelen o dan arweiniad cryf a chadarn Mr Gwilym Humphreys yn un arbennig. Falle bysa rhai yn ei alw yn barchedig ofn ond i mi roedd yn arwr. O dan ei arweiniad teimlai cymuned yr ysgol yn ddiogel.

Beth bynnag oedd eich rhinweddau buasech yn cael cyfle teg i ddatblygu. Roeddwn i'n un dda ym myd chwaraeon a sbrintio a chofiaf am byth Mr Humphreys yn gweiddi "Dewch ymla'n Dilys Young dros y llinell â chi". Enillais i'r ras a theimlais yn sbesial jyst am eiliad. Dyna oedd cyfrinach llwyddiant yr ysgol - rhoi'r cyfle i'r unigolion gyrraedd eu potensial beth bynnag oedd eich maes neu arbenigedd.

Roedd yr ysgol ar flaen y gad gyda gweithgareddau allgyrsiol a chlybiau ieuenctid. Cawsom gyfle i gymdeithasu wedi'r ysgol yn y clwb ieuenctid, lle cynigid nifer o weithgareddau a disgo ar ddiwedd y noson. Roeddem yn gadael Rhymni ben bore Mawrth a chyrraedd yn ôl ar ôl ysgol brynhawn Mercher. Ryw ffordd, rywsut roedd cyfran fach ohonon ni ddisgyblion â grantiau sir yn talu am lety dros nos mewn tai cyfagos .



Dilys a'i chwiorydd

Dilys Williams



Cawsom amser wrth ein bodd a gyfrannodd i sicrhau ein bod yn cael addysg gyflawn. Mawr ein diolch i weledigaeth y pennaeth a brwdfrydedd y staff. Rhaid cofio bod dalgylch yr ysgol yn eang iawn. Deuai'r plant o'r Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach, Maesteg, Castell Nedd, Y Barri i enwi ond ychydig o lefydd. Dyma beth oedd gwir gymdeithasu. A heb flewyn ar fy nhafod defnyddiem yr iaith Gymraeg yn hyderus a naturiol tu allan i oriau'r ysgol. Cyfle cyfartal i bawb beth bynnag oedd eu statws.

Cawsom brofiadau o gynrychioli'r ysgol ym mabolgampau cyntaf ysgolion cyfun Cymraeg Cymru; cyfleoedd i ddysgu offerynnau ac ymarfer yn ystod ein hamser chwarae os nad oedd offerynnau yn y tŷ. Cofiaf gyda chariad frwdfrydedd Mrs Lily Richards wrth iddi sicrhau fod pawb yn cael cyfle i werthfawrogi cerddoriaeth a chynnig cyfleoedd unigryw i ni, fel y cyfle i ymddangos ar lwyfan Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberafan. A gwnaeth hi hyd yn oed drefnu lifft i Aberafan o Gaerffili: trên o Rymni i Gaerffili ac wedyn lifft o'r fan yna. Diolch Mrs Richards.

Cofiaf gyda thristwch y daith adre'r dydd Gwener digwyddodd Trychineb Aberfan; y cyhoeddiad yn y neuadd ysgol wrth i'r newyddion ddod i'r brig. Y teithio adre'r noson honno gyda fy ffrind newydd o Faesteg yn eistedd wrth fy ochr a'r ddwy ohonom a gweddill y criw ar y bws ddim yn deall beth oedd yn digwydd gyda sŵn y cerbydau argyfwng, y dŵch yn y pellter, yr holl bobl ar ochr y rhewl, jyst yn sefyll a syllu, arogl marwolaeth yn yr awyr. Roeddwn i ond yn dair ar ddeg mlwydd oed ac yn ofnus. Braf oedd o'r diwedd cyrraedd Rhymni'r noson honno ar ôl yr oedi a gweld Mam a Dad yn gwenu arnom a chroesawi fy ffrind.

Cyffro, amrywiaeth, hwyl, gweithio'n galed, symud gyda newidiadau boed adeiladau neu systemau addysg; popeth yn antur tra roeddwn yn ddisgybl yn yr ysgol.

Braint yw bod yn gynnyrch addysg Gymraeg. Mae heb os nac oni bai wedi cyfoethogi fy mywyd

Gobeithiaf fy mod i yn fy ngyrfa wedi cynnig yr un profiadau i blant y Cwm a'r ardal a diolchaf i'r rhieni am eu ffydd ynom er mwyn sicrhau hir oes i'r iaith Gymraeg.

Diolch Mam a Dad am fod â ffydd yn y system Gymraeg a gadael imi elwa a chael fy ysbrydoli.

Cofio Nansi Phillips (née Morris) a Mary (Maria) Moseley



Wrth fynychu angladd y diweddar Nansi Phillips yng Nghapel Siloh, Tredegar ychydig cyn y Nadolig, daeth llawer o atgofion hyfryd i'r cof, nid yn unig am y wraig hawddgar a phrydferth hon oedd mor annwyl i'w theulu a'i chynabod, ond hefyd am genhedlaeth gyfan o rieni, a

mamau yn arbennig, a fu mor gefnogol i addysg Gymraeg yn yr ardal hon yn ystod y dyddiau cynnar.

Un o deulu cerddorol y Morrisiaid o Fryn Seion, Rhymni oedd Nansi. Daeth yn adnabyddus yn y cylch fel unawdydd a chanddi lais soprano swynol. Bu'n cystadlu mewn eisteddfodau ac yn perfformio mewn cyngherddau a chymanfaoedd canu am flynyddoedd, a rhoddodd bleser mawr i lawer. Er iddi fyw yn Nhredeg ar ôl priodi, daliodd gysylltiad agos â'i thref enedigol, nid yn unig drwy barhau i fynychu Capel Seion lle'r oedd ei brawd, Gwilym, yn organydd, ond hefyd fel un o rhieni cyntaf a mwyaf cefnogol Ysgol Gymraeg Rhymni. Roedd Nansi ymhob digwyddiad yn ymwneud â'r ysgol a llawn hwyl a brwdfrydedd bob amser. Paul, ei mab hynaf, oedd y disgybl cyntaf o Ysgol Rhymni i fynd i Ysgol Uwchradd Rhydfelen (fel yr oedd y pryd hwnnw), gan deithio, ar y dechrau, mewn tacsi y talwyd amdano drwy gyfraniadau rhieni'r Ysgol Gymraeg a chymorth Cronfa Glyndŵr. Dilynodd gweddi ei phlant, Heulwen, Huw a Meurig yn eu tro, a'r bws ysgol erbyn hynny'n galw heibio i Queen's Square, Tredegar. Ymhlith uchafbwyntiau ei chyswllt â Rhydfelen oedd canu gyda'r côr disgyblion a rhieni mewn sawl oratorio o dan arweiniad y diweddar Lily Richards.

Roedd Nansi wrth ei bodd! Ymhen blynnyddoedd bu'n helpu ei merch gyda'r Ysgol Feithrin yn Nhredeg ar hefyd, ac ergyd fawr iddi oedd colli Heulwen yn haf 2018. Fe gafodd Nansi, oedd yn 90 oed, fywyd llawn a phrysur ac roedd yr oedfa yn Siloh yn llawn cerddoriaeth ac yn deyrnged addas iawn iddi gan ei theulu dawnus.

Wrth feddwl am gyfraniad Nansi, rhaid sôn hefyd am riant cefnogol arall a gollwyd yn 2019, sef Mary Moseley, yn wreiddiol o Rymni, a fu'n byw yn ddiweddar yn Hengoed. Roedd hi'n 95



mlwydd oed. Eidales Gymreig oedd hi - Maria Luigia Antonia oedd ei henw bedydd, ac ar ôl priodi â Berwyn, magodd deulu o chwech o blant yn

nhraddodiadau gorau'r Eidal a Chymru. Er nad oedd addysg Gymraeg ar gael yn amser ei phlant hynaf, Lynda, John a Peter, aeth Huw, Ceris a Helen drwy'r gyfundrefn Gymraeg, ac roedd eu mam yn ffyddlon iawn i'r Gymdeithas Rien i Rhymni. Roedd hi'n gogyddes dda, yn hael a charedig ac yn berson hardd ymhob ystyr. Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Eglwys Gatholig ym Margod, a mawr yw hiraeth ei theulu a'r gymuned Eidalaidd yn ne Cymru ar ei hôl.

Sian Rhiannon



Dyma gerdd a ysgrifenyddwyd gan Dafydd Islwyn i gofio GARETH HEAD a fu farw y llynedd.

Roedd Gareth yn ddisgybl yn y dosbarth cyntaf a fu gan Dafydd pan ddaeth i Ysgol Gymraeg Caerffili.

Mae'n ddeg oed o hyd yn nosbarth yr atgofion

Yno pan alwaf ei enw wrth farcio'r cofrestr mae'n ateb yn wên i gyd.

Gydag amser fe dyfodd yn ddyn

Cyn-Ddisgybl

Na ni agoraf gofrestr y co' i farcio pwy ddaw i'r aduniad. Fe'i cadwaf ar gau ar ddesg y gorffennol.

Dafydd Islwyn

Tafarn wledig ryw bum milltir o'r dre oedd ac ydy'r Crown. Ces i job yno'n gweithio tu ôl i'r bar yn ystod gwyliau'r haf tra'n fyfyrwr. Doedd hi ddim yn rhy bell i yrru yno. Pobol leol gan mwyaf yn ystod y gaeaf ond doi cryn dipyn o ymwelwyr yno yn ystod yr haf i flasw'r cwrw, yr hedd a'r olygfa dros yr afon dros y dibyn islaw. Roedd Les y tafarnwr, a'i wraig Edith, cwpwl o Wrecsam yn wreiddiol, yn gadael pethau i mi tan iddi hi brysuro tua'r hwyr yn y bar. Roeddwn i'n dechrau am chwech ac mi fyddai hi'n ddigon tawel tan tua wyth o'r gloch. Tua saith o'r gloch ddaeth o i mewn.

Welais i mohono fo am y pythefnos cyntaf oeddwn i wedi bod yn gweithio yno ond gwyddwn am ei fodolaeth gan fod plât bychan o bres wedi ei osod yn y bar gyferbyn a'i sedd arferol. Roedd honno'n un ddigon anghyfforddus yn fy marn i, wedi ei haddasu o hen sedd tractor ar ben hen wchel i wneud stôl bar. Ar y plât roedd y geiriau 'CADAIR IDRIS' a phrin y byddai neb yn eistedd ar y stôl. Wyddwn i ddim os mai o barch i'r un oedd yn hawlio'r lle oedd hynny neu am y ffaith fod y stôl mor gythreulig o boenus i aros arni'n hir.

Heblaw am gwpwl ifanc yn eistedd ar y sofffa ger y lle tân, roedd y bar yn wag pan welais i o y tro hwnnw; dyn bychan o gorffolaeth a'i gefn braidd yn grwm yn hercian trwy'r drws yn ei gap a'i oferôls pardduog a phlannu ei hun ar y stôl. Roedd ei wyneb ysgithrog yn frowngoch heblaw am siâp gogls yn hollol wyn rownd ei lygaid. 'Peint o hwnna, plîs,' meddai a chyfeirio at bwmp y cwrw gorau a'i lygaid yn edrych yn syth ata i. Gwyliodd fi'n ofalus yn tynnu'r cwrw melyn o'r pwmp. Cyflwynais y gwydr iddo wedyn. Cododd yntau'r gwydr i archwilio ansawdd y cynnwys cyn ei godi at ei wefusau a llyncu'r cyfan mewn un sloch hir. Rhoddodd y gwydr yn ôl ar y bar wedyn a sychu'r ewyn o'i safn. 'Dyna well,' meddai. 'Well i mi gael un arall. Dala i wedyn,' ychwanegodd. Ufuddheais. 'Pedwar swllt, plîs,' medde fi wedyn.

Aeth yntau i boced ei oferôls i nôl ei arian a thynnu rholyn sylweddol o bapurau pum punt ohoni. Ymbalfalodd yn y boced wedyn a thynnu dau hanner coron allan a'u cynnig i mi. Rhoddodd y rholyn yn ei ôl wedyn. Wrth dderbyn ei swllt o newid sylwais ar ei law oedd yn arbennig o rymus i ddyn mor fychan. Roedd ôl gwaith blynnyddoedd arni a thipyn o ôl llafur y diwrnod hwnnw hefyd gyda staen olew yn ddu ar ei chefn.


'Mecanic?' holais i.

'Rhywbeth felly,' atebodd yntau yn ddigon swta yn astudio ewyn ei ail beint oedd wedi cael cyfle i aros tipyn yn hwy ar y bar y tro hwn.

'Ceir?' holais i wedyn yn ceisio cynnal trafodaeth fel sy'n ddisgwyliedig i bob barman gwerth ei halen.

'Motobeics,' meddai. 'Ti'n gwbod rhywbeth am fotobeics?'

'Roedd 'yn yncl i'n arfer rasio nhw.'



Be oedd ei enw fo?'

'Tomi Mac oedden nhw'n ei alw fo.'

Daeth goleuni sydyn i'w lygaid. 'Yn ei nabod o'n iawn. Yfflon o foi da. Ariel oedd gynno fo. Matchless oedd gen i. Mi ddaethon ni'n go agos ar yr Eil o Man un tro ond doedden ni ddim patsh ar Geoff Duke, Malcolm Uphill a'u tebyg ar eu Nortons a'i Gileras.' Roedd tân wedi ei gynnu rywle yn ei ymennydd a llifeiriodd yr atgofion wedyn. Edrychai'n graff ar ewyn ei beint fel petai drych i'r gorffennol ynddo.

'Mi oedd hi'n ddiwrnod crasboeth yn Oulton Park, dw i'n cofio,' dechreuodd. 'Mi oeddwn i a Tomi yno a'r ddau ohonon ni wedi preimio'n beics i'r dim ...,' meddai a llifodd yr hanes yn ffri. Bobol, mi oedd gan hwn ddawn y cyfarwydd i gyfareddu ac aeth â fi rownd pob cornel ar y trac a minnau'n cordeddu dros y tarmac yn gwyro o un ochr i'r llall gydag o. Clywais am bob gornest bersonol yn y ras; teimlais yr her a chefais flas o'r ofn. 'Roedd Tomi a fi ar y blaen ac mi allwn i deimlo gwynt Geoff Duke y tu ôl i ni.' Roeddwn i wedi fy swyno a mynnwn bob CC o bŵer i'r beic oddi tanom, ond peidiodd y llifeiriant yn sydyn.

'Enilloch chi?' holais i yn ddiamynedd.

'Naddo. Mi basiodd y diawl ni ar y gornel ola ac mi oedden ni'n edrych ar ei egsôst o dros y lein. Ond mi oedden ni'n agos. Fi'n ail a Tomi'n drydydd. Bobol, dyna be oedd ras,' meddai a chymryd llwnc o'i beint.



"Gelligaer Gall Ei Gwerin"

Ac roedd dydd Gwener, 24ain o Ionawr eleni, yn ddiwrnod i'w gofio i'r "Werin Gall". Oherwydd cynhaliwyd dau ddigwyddiad o bwys yn yr hen bentref hanesyddol y diwrnod hwnnw.

Y bore hwnnw dadorchuddiwyd plac i Llywelyn Bren, Arglwydd Senghennydd. Yma yn Nhwyn y Castell oedd llys y tywysog Cymreig enwog, Llywelyn ap Gruffudd ap Rhys. Fe arweiniodd wrthryfel yn erbyn Edward II o Loegr gan ymosod ar gastell Caerffili, methwyd â chipio'r castell ond llosgwyd rhannau helaeth o'r dref. Yn Ystradfellte



Dr Elin a Maer Caerffili, Julian Simmonds yn dadorchuddio'r plac

ildiodd Llywelyn ar Fawrth 18fed 1316. Gofynnodd Llywelyn am bardwn i'w ddynion a gofyn i'r gelyn gymryd ef yn garcharor gan ddweud y byddai'n well colli un bywyd na chynifer. Rhoddwyd pardwn iddo ond aethpwyd yn ôl ar yr addewid ac fe'i cipiwyd o Dŵr Llundain gan Huw Despenser, arglwydd newydd Caerdydd, heb ganiatad y brenin a'i ddwyn i gastell Caerdydd. Yno, o flaen Tŵr Du y castell a heb sefyll prawf, dioddefodd gosb erchyll am deyrnfradwriaeth. Cafodd ei grogi a'i ddiberfeddu tra roedd yn dal yn fyw, cyn torri ei gorff yn ddarnau. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y Brodyr Llwyd gerllaw'r castell.

Teimlad hyfryd oedd dychwelyd i Gelligaer y noson honno i ddathlu'r Blygain. Roedd Dr Elin Jones wedi

trefnu ein bod ni yn yr ardal hon yn cael profi'r dull traddodiadol o ddathlu'r Nadolig a'r Calan, a hynny yn yr union eglwys y bu Llywelyn Bren yn addoli ynddi. Enwir yr eglwys er mwyn Sant Catwg, a'r 24ain o Ionawr yw'r diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cofio'r sant hwnnw.

Ail grëwyd naws y Blygain gyda nifer o gyfraniadau i gyd-fynd â'r canu cynulleidfaoel. Cafwyd unawdau lleisiol ac offerynnol a chafwyd cyfle i fwynhau eitemau gan amryw grwpiau megis, Parti Lled y Pen, Parti'r Efail a Lleisiau Rhymni.

Flynnyddoedd yn ôl dim ond y dynion fyddai'n cael canu'r carolau unigryw a gysylltir â'r dull hwn o addoli.

Cynhaliwyd y gwasanaeth bryd hynny yn ystod y nos drwy gario canhwylau drwy'r eglwys yn ystod "cân y ceiliog" rhwng 3 a 6 o'r gloch y bore.

Cadair Idris (parhad)

Clywais ddrws ffrynt y dafarn yn agor. Roedd y tîm darts ar ei ffordd i mewn i'r ystafell gefn.

Ymddiheurais a gadael i fynd rownd y gornel at y bar arall. Dim ond Glyn oedd wedi cyrraedd.

Roeddwn i wedi dod i'w nabod o'n go lew. Tra'n tynnu ei beint holais,-

'Ti'n nabod Idris?'

'Idris Beics?'

'Ia.'

'Yfflon o foi clên, rêl storïwr.'

'Ia, dene fo.'

'Mi oedd o'n medru trwsio unrhyw beth: ceir, tractors ond beics oedd ei bethe fo. Fo weldiodd y sê't 'ne wrth y bar drws nesa. Mi oedd o'n dipyn o foi rasio yn ei ddydd.'

'Be' ti'n feddwl 'oedd'? holais i.


'Ddarllenest ti mo'r hanes yn y Daily Post ryw ddau fis yn ôl? Ar ei feic gafodd o ei ladd. Mi aeth o dros y wal i'r afon yn fan acw ar ei ffordd adre. Wedi meddwi'n dwll. Biti garw. Mi oedd o wedi gwerthu ei hen feic rasio ac mi oedd y pres yn llosgi yn ei boced o, am wn i. Wedi mynd i ddyled, glywes i.'

'O,' medde fi.

'Ti'n olreit?' holodd Glyn oedd yn amlwg wedi sylwi arna i'n gwelwi ac yn anadlu'n drymach.

'Ydw,' medde fi a throi yn ôl i'r bar arall. Roedd yr ystafell yn wag ond roedd gwydr Idris yn dal ar y cownter gyda'r ewyn yn sglefrian i lawr yr ymyl. Clywais sŵn motobeic yn tanio a'r rhu'n pylu yn y pellter wedyn.

Colofn Dafydd Islwyn



Jyrciodd y bws wrth ailgychwyn wrth y goleuadau yng Nglan y Nant a dychwelais o Drelewis. Trodd y bws o'r A469 i'r A4049, troi o Sir Forgannwg lawr am afon Rhymni a'i chroesi ac i fyny i Sir Fynwy. Gan fy mod i yn greadur ceidwadol rwy'n dal i ddefnyddio map Cymru cyn 1974. Map y tair sir ar ddeg y dysgais eu henwau yn ysgol gynradd Pentraeth, Ynys Môn. Map yr edrychaf arno yn aml wrth droi i'r Geiriadur Bach, Llyfrau'r Dryw, a gyhoeddwyd ddydd Gŵyl Ddewi 1959. Map a ddefnyddiaf yn ddyddiol bron wrth ddwyn i gof yr englynion a enillodd yn y Genedlaethol yn Sir Forgannwg: Caerffili, 1950, "Y Ceiliog Gwynt" gan T. Llew Jones a Sir Fynwy, Glyn Ebwy 1958, "Torth". R. J. Rowlands Y Bala, oedd yn y dosbarth cyntaf yno ac ef enillodd yng Nghwm Rhymni yn 1990. Testun y cywydd yn y Genedlaethol, Aberdâr, 1956 oedd "Morgannwg". Daeth T. Llew Jones yn gyd-fuddugol yn y gystadleuaeth. Darluniodd y llinellau agoriadol yn nhrydedd caniad ei gywydd Forgannwg canol y pumdegau:

Mae heddiw'n henfro'r glöwr
Â'i rhesi tai hir, a'i stŵr,
Erwau glas dan dipiau glo
Ar heniaith ar drai yno.

Yn ôl cywyddwr arall:
Yr heniaith wedi rhynnu
A sŵn y Sais yno sy'

Ymhen deng mlynedd ar hugain, yn ei awdl "Llanw a Thrai" mae Robat Powel yn synhwyro yn y ddwy sir:

Eto ar ôl y trai hir – daw curiad
I had y Deheudir;
Fe dry iaith eilwaith i'w thir
A'i halawon a glywir.

Croesi'r afon Rhymni a chofio am Iolo Morganwg (1747 - 1826). Yn 1781 priododd, ac yn 1783 ymsefydlodd yn Llandaf. Cafodd amser go helbulus ac yn y man fe'i cawn yn ffermio tir a gawsai ei dad-yng-nghyfraith ym mhlwyf Tredelerch (Rumney heddiw) yn ôl Gruffydd John Williams.

Gan fod lolo byth a beunydd yn adeiladu cestyll yn yr awyr mwydrodd ei ben â'r posibilrwydd pan oedd yn yr ardal "ar dyfu melonau a thatws ar dir 'paradwysaidd' Morgannwg ac o fagu heidiau o frithyll ac eog yn ei hafonydd a'i nentydd." Ymchwiliodd Geraint H. Jenkins hynar gyfer ei gyfrol "Y Digymar Iolo Morganwg". Mae'n siŵr fod ei lygaid ar afon Rhymni! Yr arwydd cyntaf a ddarllenaf yn Sir Fynwy ydy un yn nodi capel Ebeneser, yr adeilad cyntaf ar y dde yn River Terrace. Capel wedi cau a bellach yn cael ei ddefnyddio fel Canolfan i Oedolion ag Anawsterau Dysgu. Ddoe'r aelodau yn gwrandao ar yr Efengyl ynddo, heddiw ynddo'r Efengyl yn cael ei gweithredu. Mor addas ydy'r hen ddihareb - un o Tsieina yn wreiddiol, o bosib "Y mae un darlun, un weithred, yn werth mil o eiriau" wrth gofio'r gwaith a wneir yno. Yr enw River Terrace ym Mhengar; River View ym Mhen-traeth, Sir Fôn fy mhlentyndod. Ia, mor wir ydy cwpled clo, T. Llew Jones i'w gywydd "Morgannwg",

Rhoddi'i fawl i bob bardd a fyn
I bridd lle bu ei wreiddyn!

I fyny mymryn o allt a throï i'r ffordd B4252 am Fleur de Lys a Maesycwmer. O'r bws sylwi ar yr enw "Afonlais" ar un o'r tai. Yn y tŷ â'r enw telynegol nid Cymry na Phrydeinwyr sy'n byw yno! Ai dyma'r enw mwyaf rhamantus ar gantref yng Nghwm Rhymni? Enw ar yr arosfan yn y cyffiniau ydy'r Smith's Arms, y dafarn leol. Yn 1896, mewn eisteddfod yn Senghennydd fe enillodd Dewi Aur, y bardd lleol y wobr am englyn i'r dafarn:

Tŷ Bachus a'i frwnt bechod - yw tafarn
Tŷ yfed, drwg drallod,
A thŷ mellith a maldod

"Dosbarth Wyn"



Dwy sesiwn lenyddol sydd ar ôl eleni, gyda'r Athro Wyn James. Y man cyfarfod yw festri capel Tonyfelin, Caerffili. Bydd pob sesiwn yn dechrau am 7:00 ac yn gorffen tua 9:00 o'r gloch. Dyma'r nesa.

Chwefror 11eg: Y Stori Fer a darnau llenyddol eraill.

Mawrth 11eg: I'w drefnu

Mae croeso cynnes yn eich disgwyl

Dathlu Beibl

1620

Eleni, bydd gan Gristnogion Cymraeg eu hiaith ben-blwydd arbennig i'w ddathlu, sef pedwar canmlwyddiant cyhoeddi'r gyfrol a elwir yn aml yn 'Feibl Parry'. Testun diwygiedig oedd hwn o Feibl yr Esgob William Morgan (1588) ac mae'r enw yn nodi'r ffaith taw Richard Parry, Esgob Llanelwy, fu'n noddi'r cyhoeddi. Serch hynny, mae'n debyg taw gwaith ei frawd-yng-nghyfraith, Dr John Davies (1567-1644), Rheithor Mallwyd yn Sir Feirionnydd, ydyw yn bennaf. Efallai bydd rhai o ddarlennwyr Cwmni wedi darllen *Sgythia*, sef nofel hanesyddol glodfawr y diweddar Gwynn ap Gwilym sy'n olrhain, mewn ffordd lawn dychymyg, fywyd, gweinidogaeth ac ysgolheictod John Davies. Er ei fod yn byw a gweinidogaethu mewn ardal dlawd ac anghysbell, daeth yr offeiriad hwn â grym yr efengyl i'r bobl ar sail ei ddysg enfawr, a thrwy ei allu ieithyddol dylanwadodd ar y cenedlaethau i ddod.

Tan i'r cyfieithiadau cyfoes o'r Beibl ddechrau ymddangos yn y 1970au a thestun llawn *Y Beibl Cymraeg Newydd* yn 1988, diwygiad John Davies o destun William Morgan a ddefnyddiwyd mewn eglwysi a chapeli ledled Cymru. Yn ogystal bu Davies yn gyfrifol am argraffiad newydd o'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* ac felly roedd ei iaith goeth yn atseinio yng nghlustiau a chalonnau Cristnogion lawer. Serch hynny, nid yn unig yn yr eglwys y gwelwyd ffrwyth ei lafur ond hefyd wrth i'r iaith oroesi a datblygu mewn amgylchiadau digon anodd yn ystod y canrifoedd wedyn. Bu John Davies yn gyfrifol am ramadeg a gyhoeddwyd yn 1621, sy'n adleisio glendid a hyfrydwch ei iaith ysgrythurol, a geiriadur dyblyg Lladin-Cymraeg / Cymraeg-Lladin (1632),



Fodd bynnag, yr eglwysi yn bennaf fydd yn dathlu cyfraniad John Davies eleni a thrysorau dirifedi Beibl 1620 drwy gyfres o ddigwyddiadau yn ystod 2020. Yn eu plith bydd gwasanaeth arbennig yng **Nghapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, nos Iau, 5 Mawrth am 7.00pm**. Y pregethwr gwadd y noson honno fydd Arfon Jones sy'n adnabyddus yn bennaf oll fel cyfieithydd beibl.net, y fersiwn diweddaraf o'r Beibl sydd wedi dod â gair Duw yn fyw i lawer drwy ei arddull gyfoes, drawiadol. Da iawn fydd clywed cyfieithydd cyfoes sy'n dilyn traddodiad anrhydeddus William Morgan a John Davies yn rhannu'r un gair bywiol ac ysbrydolodd ein hynafiaid. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno yn y dathliadau hyn.

"Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr." (Salm 119:105, Beibl 1620)

"Mae dy eiriau di yn lamp i'm traed ac yn goleuo fy llwybr." (Salm 119:105, beibl.net)

Y Parch'g. Ddr. Ainsley Griffiths - Cyfarwyddwr Ffydd, Trefn ac Undod - Eglwys yng Nghymru

Diolch i'r Cynghorydd Peredur Owen-Griffiths, Penrhos, Caerffili, am yr erthygl hyn.

Diolchiadau

Diolch i Tower Print am argraffu rhifyn y Nadolig mewn lliw.

Diolch i "Golwg" am addasu eu calendr at ein defnydd ni.

Cynllun Coleg Gwent

Mae nifer o ddarllenwyr Cwmni yn rhan o gynllun sy'n partneru dysgwyr gyda siaradwyr Cymraeg er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr arfer yr iaith y tu allan i'w dosbarthiadau. Rydym eisoes wedi darllen am bartner Ben Jones sy'n ohebydd rygbi. Mae Ann Lewis yn cwrdd yn rheolaidd ag Angela Yeoman ac fe benderfynon nhw lunio cyfweiliad ar gyfer y papur bro i annog mwy o Gymry Cymraeg i ymuno â'r cynllun.

Angela, o ble rwyd ti'n dod yn wreiddiol? O Bontarddulais. Mae fy ngheulu yn Eidalwyr ac roedden nhw'n rhedeg caffi Eidalaidd yng nghanol y dref.

Diddorol iawn. Oeddech chi'n siarad Eidaleg yn y tŷ? Fel mae'n digwydd, na. Cafodd sawl un o'r dynion yn y teulu, yn cynnwys fy nhad-cu, amser anodd yn ystod yr ail ryfel byd a chael eu carcharu am eu bod yn Eidalwyr. Ar ôl hyn roedd fy mam yn awyddus iawn i ni integreiddio'n llwyr yn y gymuned a doedd hi ddim am i ni siarad Eidaleg.

Ddysgaist ti Gymraeg yn yr ysgol? Wel do, tipyn bach yn yr ysgol gynradd, a dysgais i lawer am hanes a diwylliant Cymru. Ond wedyn es i Ysgol Ramadeg y Merched yn Nhregwyr a doedd dim sôn am Gymraeg yno o gwbl.



Felly pam penderfynaist ti fynd i ddosbarth Cymraeg i oedolion? Ar ôl dechrau gweithio fel athrawes, clywais i fwy o'r iaith a mwynhau ei chlywed. Wedyn yn angladd fy mam, roedd llawer o'i chymdogion yn siarad Cymraeg. Dechreuais i fynd i wersi a chael blas ar y dysgu.


Oes rhai o dy deulu yn siarad Cymraeg? Oes, aeth fy merch i Ysgol Uwchradd Caerdydd ac astudio Cymraeg i safon A. Mae hi nawr yn astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Beth wyt ti wedi ei fwynhau yn arbennig am ddysgu Cymraeg? Popeth! Yn arbennig efallai gwrandao ar gerddoriaeth Gymreig a Chymraeg, bandiau fel Brigyn a chantorion fel Rhys Meirion a Bryn Terfel. Rydw i wrth fy modd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol, profi awyrgylch Gymraeg a chael mwy o gyfle i siarad. Cefais sgwrs gyda Gari Owen yn Eisteddfod Llanrwst. Mae e hefyd yn dod o Bontarddulais. Roedd e'n cofio dod i'n caffi ni gyda'i fam pan oedd yn blentyn. Bydda i hefyd yn gwrandao ar Radio Cymru a darllen llyfrau Cymraeg. Mae mynd i Sadyrnau Siarad yn brofiad da hefyd.


Beth oedd y peth mwyaf anodd am ddysgu'r iaith? Yn bersonol, cael hyder wrth siarad Cymraeg – gyda thiwrtoriaid yn arbennig ond hefyd gyda Chymry Cymraeg. Mae bod yn rhan o gynllun Coleg Gwent wedi fy helpu yn fawr.

Diolch Angela. Ga i apelio ar ddarllenwyr Cwmni i wirfoddoli i ddod yn rhan o'r cynllun arbennig yma. Mae llawer o oedolion yn ein cymuned wrthi'n ddyfal yn dysgu'r iaith, ond yn aml does dim cyfle yn yr ardal hon i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'w gwersi. Allech chi roi 10 awr y flwyddyn - dyna'i gyd - i sgwrsio gyda rhywun sy'n dysgu'r iaith a dangos ein bod yn cefnogi eu hymdrech?

Atebion Posau Tudalen 9



20.





Taith Trefdraeth

Mehefin 17-19 June 2020



Yn cynnwys: Cludiant Bws Mini - Gwely, brecwast a swper -
Sesiwn blasu yng Ngwinllan Cwm-Deri - Rhaeadr Cenarth a
Taith Tywys Caws Cenarth - Ymweld â Melin Tregwynt

A mwy



£280 ystafell sengl
£240 rhannu twin

Blaendal £140 - 6/3/20
Gweddill - 22/5/20

Pris yn cynnwys trafndiaeth
(bws mini), dwy noson yn llety
The Golden Lion Inn gyda swper,
gwely a brecwast, a'r holl
weithgareddau uchod.



bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913

Elusen Gofrestredig rhif: 1105172. Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant rhif: 5096968

Menter Iaith Sir Caerffili



CLWB DAWNS DIRI

Nos Fawrth

5:00pm - 6:00pm

Blwyddyn 2+

£3 y sesiwn

@ Neuadd Eglwyd Holy Trinity
Ystrad Mynach, CF82 7DR

Does dim angen cofrestru,
dewch i sesiwn laf y flwyddyn ar
21ain o Ionawr.



Cyfleoedd i ddawnsio ar
lwyfan Ffiliffest a
Ffair Nadolig Llancaich Fawr

Yn ystod y tymor
Cysylltwch am rhagor o fanylion

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443 820913

Menter Iaith Sir Caerffili

Sesiwn Ceginio Pice ar y maen

£5.00

Oedran

8-12



Dydd Iau Chwefror 20 2020

14:00-15:30

Ysgol Cwm Rhymni, Safle Y Gwyndy

Heol Pontygwyndy, Caerffili

Dewch a ffedog eich hunain
Rhaid bwcio cyn Chwefror 14

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.cymru



Trefnu Blodau

Dechrau Dydd Llun
Chwefror 10, 2020

18:30-20:30

(Dosbarth bob pythefnos)

Ystafell Gwaith Coed

Safle Y Gwyndy

Cwm Rhymni, Caerffili

(Mynedfa nos drwy'r ganolfan chwaraeon)

£6

y sesiwn
per session

Cysylltwch i gofrestru a derbyn
manylion y trefniant cyntaf

bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Dydd Gwener

8fed o Chwefror

**“Cawl” a Straeon Eraill
gan awduron amrywiol**

2 o’r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi’r Graig bob dydd Llun o 10.30 ymlaen a’r bore coffi yn y Malcolm Uphill (Wetherspoons), Caerffili bob dydd Mawrth o 10 o’r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso i Bawb

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o’r gloch

3ydd o Chwefror: “Dan Law’r Diafol”

J.Alwyn Griffiths

2ail o Fawrth: “Myfi, Iolo” Gareth Thomas

6ed o Ebrill: “Gwawr Goch ar y Gorwel”

Gwen Parrott

4ydd o Fai: “Gwirionedd”

Elinor Wyn Reynolds

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

 **Menter Iaith Sir Caerffili**

TWMPATH GWYL DDEWI

GYDA ALLAN YN Y FAN

Nos Sul Mawrth 1af

Clwb Rygbi Penalltau Rugby Club

18:30-21:30

£12



Noson i’r teulu cyfan. Fydd y grwp werin *Allan yn y Fan* yn arwain y twmpath, gyda’r arlwy Cymreig gan gwmni Jam, Bae Caerdydd. Opsiwn llysieuwr ar gael.



I archebu cysylltwch

bethanjones@mentercaerffili.cymru

01443 820913



Menter Iaith Sir Caerffili. Elusen Gofrestredig rhif: 1105172. Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant rhif: 5096968

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Nos Fercher, 12^{fed} o Chwefror

Sioe Ffasiwn Elusennol

Neuadd Ysgol Penalltau, Stâd Cwm Calon

Noson o hwyl o dan ofal Dilys Williams

Cewch brynu dilledyn neu ddillad o siop elusen gan wario hyd at £10 y pen.

Parêd ffasiwn yn dechrau am 7.00

Hefyd croeso mawr i chi ymuno â ni fel rhan o’r gynulleidfa.

Addas i ddysgwyr

Darperir coctels dialcohol a danteithion

Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com

Hanes Cwm Ni

6/2/20 Thomas Hughes


Dylunio'r Faner - Hanes T.H
Thomas (Arlunydd Penygarn)

5/3/20 Allan Cook

Pererindod

7/5/20 Dafydd Islwyn

Dafydd Benwyn



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



S'ADWRN S'IARAD

Chwefror 29 2020

10:00-12:00



Caffi Yr Ystafell Fyw, Tredegar Newydd

NP246FA

Pob Nos Fawrth 7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,

Ystrad Mynach



Cwrw da Cymraeg a

Gwasanaeth Cymraeg



Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol

Trefforest CF375YB

Ar agor pob dydd Gwener

09:00 – 17:00.

www.twtlol.com

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Chwefror 15fed

Piano a Lleisiau Nicola Rose & Ffrindiau

Canolfan Gristnogol Siloh am 2.30

Lluniaeth yn ystod yr egwyl

www.rhymneyvalleymusicclub.org.uk

www.cwmalele.cymru



CWMALELE

Sesiynau pob nos Fawrth

Clwb Rygbi Penallta 6:00-8:00

£5 y sesiwn


07745927308 dafgog@gmail.com

PWYSIG

Oherwydd trafferthion gyda HSBC bu'n rhaid dod o hyd i fanc newydd. Am nad oedd HSBC yn fodlon trosglwyddo'n trafodion i fanc arall mae'n angenrheidiol i ni ofyn i'r sawl sy'n talu drwy Archeb Banc gwblhau ffurflen newydd. Bydd hyn yn golygu llawer iawn o waith i'r Trysorydd a'r pwyllgor ac felly erfyniwn am eich cydweithrediad er mwyn sicrhau na fydd ein papur bro yn colli unrhyw incwm.

Tra bod newidiadau wedi'u gorfodi arnom, rydym yn codi pris y papur. Ni fu codiad ers 2011 ac ers hynny mae'r papur wedi cynyddu yn ei faint o 12 i 20/24 tudalen a gwelwyd nifer gynyddol o'r tudalennau mewn lliw. Teimlwn nad yw'n afresymol felly i ofyn i'n darllenwyr dalu £1 y rhifyn neu £10 y flwyddyn o Chwefror 2020 ymlaen.

Gofynnwn i chi'n garedig felly i gwblhau'r ffurflen isod gan gynnwys manylion eich cyfrif banc ac i gynyddu'ch tâl. Wrth ddewis y mis rydych am dalu, wnewch chi adael digon o amser i ni a'r banc allu prosesu eich cais. Dylid dychwelyd y ffurflen, wedi'i chwblhau, i'r cyfeiriad a welir ar waelod y ffurflen.



Cwmni

IMPORTANT

Following difficulties with HSBC it became necessary to find an alternative provider. As HSBC proved unwilling to transfer all our transactions to our new bank it has become necessary to ask those of you who pay by standing order to complete a new form. This is going to involve the Treasurer and committee in a great deal of work so we would appreciate your cooperation in ensuring that our papur bro suffers no financial loss.

While these changes have been forced upon us we will increase the cost of the paper. There has been no increase since 2011 and since then the paper has increased in size from 12 to 20/24 pages with more pages in colour.

We therefore feel it's not unreasonable to ask our readers to pay £1 per edition or £10 per year from February 2020.

We ask you kindly to complete this form to include details of your bank account and to increase your payment. When selecting the month of payment please allow time for the bank to process the application. The form should then be returned to the Treasurer at the address shown at the bottom.

Gwarant Archeb Barhaol

Standing Order Mandate

I'r Rheolwr

To the Manager

.....Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/Building Society*

Cyfeiriad y Banc.....*Bank Address*

Debydwch o fy nghyfrif £10 ar y 3ydd o fis
bob blwyddyn gan ddechrau ym mis 202..... neu
nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit from my account £10 on the 3rd of
(month) annually starting in the month of 202.....
or until I advise you to the contrary*

Yn daladwy i:

Payable to:

Banc	Enw'r Cyfrif	Rhif Didoli	Rhif y Cyfrif
Barclays, Caerffili	Cwmni	20—98—68	13980030

Enw(au) ar y Cyfrif

Name(s) on the Account

___-___-___ Cod Didoli *Sort Code*

Rhif y Cyfrif/ *Account Number*

Eich Cyfeiriad

Your Address:

Cod Post *Post Code* Rhif Ffôn/*Phone No*.....

Llofnod *Signature*:.....*Dyddiad Date*:.....

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda at y Trysorydd:

Eyron Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed CF82 8HP
NID i'r Banc.